



**Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru**  
**Natural  
Resources  
Wales**

Ein cyf/Our ref: OSD  
Eich cyf/Your ref:

Tŷ Cambria  
29 Heol Casnewydd  
Caerdydd  
CF24 0TP

Ebost/Email:  
paul.edmonds@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk  
Ffôn/Phone: 03000 653581

Trwy e-bost

19 Medi 2014

[offshoredirective@hse.gsi.gov.uk](mailto:offshoredirective@hse.gsi.gov.uk)

**Ymgynghoriad CD272 ynghylch gweithredu Cyfarwyddeb 2013/30/EU ar ddiogelwch gweithrediadau olew a nwy ar y môr a diwygio Cyfarwyddeb 2004/35/EC, ac ynghylch adolygu Codau Ymddygiad Cymeradwy ar y môr a diweddarau deddfwriaeth ddiogelwch olew a nwy ar y tir ar gyfer ymdrin â thechnolegau ynni sy'n dod i'r amlwg**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfuno swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru. Ein pwrpas yw sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu defnyddio a'u gwella'n gynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol.

Diolch am ymgynghori â Chorff Adnoddau Naturiol Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru) ynghylch y ddogfen uchod. Mae ein hymateb yn canolbwyntio ar gwestiynau 1 a 12.

C1. A ydych yn cytuno gyda'r sail resymegol ar gyfer dewis y dull arfaethedig o sefydlu awdurdod cymwys olew a nwy ar y môr ar gyfer y DU?

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno y dylai'r sail resymegol ar gyfer awdurdodau cymwys parthed rheoleiddio'r diwydiant gydag ystyriaethau amgylcheddol fod yn debyg i gyfundrefnau eraill pan fo modd, er mwyn i'r cynlluniau fod yn gydategol ac fel y gellir rhoi dulliau cyson ar waith. Mae'r sail resymegol a nodir yn ymwneud â'r un egwyddorion sydd mewn grym ar hyn o bryd dan Gyfarwyddeb Seveso II parthed Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr 1999, lle gwelir mai'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Rheoleiddwyr Amgylcheddol yw'r awdurdod cymwys ar y cyd.

C12. Mae'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cynnig y dylid cynnal yn fras ddull presennol y DU o gael trefniadau argyfwng gwahanol dan ein hystod o ddeddfwriaethau olew a nwy, yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol i lunio un cynllun. A ydych yn cytuno ynteu'n anghytuno gyda'r dull hwn?

Yn cytuno. Bydd y cymhlethdodau o reoli digwyddiad neu ddamwain fawr angen awdurdod a chyngor arbenigol ar gyfer y ddwy agwedd wahanol sy'n perthyn i ddiogelwch ac effaith amgylcheddol. Fodd bynnag, dylai'r trefniadau diwygiedig ar gyfer y dyfodol, y cyfeirir atynt dan ddeddfwriaeth ddiogelwch, Rheoliadau Gweithfannau Alltraeth (Atal Tân a Ffrwydradau, ac Ymateb ar Frys) 1995, trwy gyfrwng Rheoliadau Achos Diogelwch 2015, gadw egwyddorion llywodraethu tebyg o ran sicrhau ymateb integredig a chydategol i ddigwyddiadau a damweiniau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso ichi gysylltu â mi.

Yn gywir / Yours faithfully



Paul Edmonds

[Uwch Ymgynghorydd Strategaeth Digwyddiadau / Incident Strategy Senior Advisor](#)